**Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cyngor 2025/26 – 2026/27**

**Cyflwyniad a Chwmpas**

1. Mae'r Cod Ymarfer hwn ("y Cod") yn berthnasol i aelodau Cynghorau Prifysgol Cymru (PC) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). O fewn y Cod, mae'r term 'Cyngor' yn golygu Cynghorau PC a PCYDDS ill dau fel y bo'n briodol ac mae'r term 'Prifysgol' yn golygu PC a PCYDDS ill dwy fel y bo'n briodol, ac eithrio ble nodir fel arall.
2. Prif ddiben y Cod yw rhoi arweiniad i aelodau'r Cyngor ynghylch:

   - y safonau ymddygiad ac atebolrwydd a ddisgwylir ohonynt yn eu rôl fel llywodraethwyr y Brifysgol ac ymddiriedolwyr elusen;
   - egwyddorion a gwerthoedd y Brifysgol a gwasanaeth cyhoeddus yn fwy cyffredinol; ymagwedd y Brifysgol tuag at faterion megis cyfrinachedd a datgan buddiannau.

3. Dan Ordinhad 7 PC ac Ordinhad II PCYDDS, gall y Cyngor ddiswyddo aelod sydd wedi methu'n gyson â bod yn bresennol mewn cyfarfodydd heb ganiatâd neu sydd fel arall yn analluog neu'n anaddas i gyflawni swyddogaethau aelod. Diben eilaidd y Cod yw cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, sy'n fodd o lunio barn ynghylch y materion hyn.

4. Nod y Cod yw hyrwyddo llywodraethu corfforaethol ac elusennol sy'n effeithiol, yn wybodus ac yn atebol, ac ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad terfynol neu awdurdodol o'r gyfraith.
5. Disgwylir i'r rheini y mae'r Cod yn berthnasol iddynt fod yn gyfarwydd â'r canlynol, a ddarperir wrth benodi'r aelod ac y gellir eu diweddaru o dro i dro:

   - Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol ('yr offerynnau statudol');
   - Cynllun Strategol y Brifysgol a'r strategaethau cefnogol;
   - Telerau ac Amodau Cyllido MEDR;
   - *Higher Education Code of Governance* gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion;
   - rheoliadau a chyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau.

6. Mae'r Cod yn berthnasol i'r Cyngor, i'w bwyllgorau sefydlog, ac i unrhyw weithgor, ac unrhyw is-gwmni neu gyd-fenter gan y Brifysgol y gellir penodi aelodau'r Cyngor iddo neu y gall fod ganddynt awdurdod neu gyfrifoldeb drosto, boed hynny'n amlwg neu'n ymhlyg.

7. Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor gytuno i'r Cod wrth gael eu penodi a chadarnhau eu bod yn parhau i dderbyn ei delerau bob blwyddyn. Wrth ymuno â'r Cod, mae aelodau hefyd yn cadarnhau eu hymrwymiad i lynu wrth reoliadau a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, ac i fabwysiadu arfer gorau mewn llywodraethu corfforaethol.

8. Adolygir y Cod bob dwy flynedd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ac fe'i cymeradwyir bob dwy flynedd gan y Cyngor.

**Egwyddorion a Gwerthoedd**

9. Disgwylir i aelodau'r Cyngor ddilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan, Mai 1996). Y rhain yw:
   *Anhunanoldeb:*

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol.

*Uniondeb:*
Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

*Gwrthrychedd:*
Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

*Atebolrwydd:*
Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt gytuno i fod yn destun i ba broses graffu bynnag sy'n briodol i'w swydd.

*Bod yn agored:*
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'r gweithredoedd a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar wybodaeth ond pan fo budd ehangach y cyhoedd yn amlwg yn galw am hynny.

*Gonestrwydd:*
Mae gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn modd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

*Arweinyddiaeth:*
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth ac esiampl.

10. Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i greu cymuned ddysgu a gweithio gynhwysol sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, lle caiff ein holl staff a myfyrwyr eu cefnogi, lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a lle gallant ddangos eu potensial. Ei nod yw cyflawni diwylliant o fod yn agored lle mae pobl yn teimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi a lle mae perthnasoedd rhyngbersonol da. Disgwylir i aelodau'r Cyngor arddangos yr un ymddygiad a ddisgwylir gan staff a myfyrwyr.

**Swyddogaethau a Phwerau'r Cyngor**

11. Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am arfer y swyddogaethau a'r pwerau a nodir yn yr offerynnau statudol. Mae'r Cynllun Dirprwyo cysylltiedig yn nodi lle y gorwedd yr awdurdod i wneud penderfyniadau yn enw, neu ar ran, y Cyngor, a lle mae'r awdurdod hwn wedi'i ddirprwyo a lle y gellir ei ddirprwyo. Os ydy aelod o'r Cyngor o'r farn y bydd y Cyngor neu bwyllgor sefydlog yn mynd yn groes i'w bwerau drwy gymryd penderfyniad penodol, dylai drafod y mater ar unwaith gyda'r Cadeirydd neu'r Clerc.

**Cydgyfrifoldeb**

12. Mae unrhyw benderfyniad gan y Cyngor (gan gynnwys unrhyw benderfyniad gan bwyllgor sefydlog ar fater a ddirprwywyd iddo gan y Cyngor), hyd yn oed pan nad yw'n unfrydol, yn benderfyniad a gymerwyd gan y Cyngor ar y cyd. Mae'n ddyletswydd ar aelodau unigol o'r Cyngor i barchu'r penderfyniad, os oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod lle gwnaethpwyd y penderfyniad ai peidio. Ni all unrhyw aelod o'r Cyngor weithredu ar ei ben / phen ei hun heb yr awdurdod priodol gan y Cyngor ac mae pob un yn dwyn cyfrifoldeb cyfartal am

benderfyniadau a wnaethpwyd.

13. Os bydd aelod o'r Cyngor yn anghytuno â phenderfyniad a wnaethpwyd gan y Cyngor neu bwyllgor, ei d(d)yletswydd gyntaf yw sicrhau bod unrhyw anghytundeb yn cael ei drafod ac, os gofynnir am hynny, ei gofnodi yn y cofnodion. Os bydd yr unigolyn yn parhau i anghytuno'n gryf, dylai ymgynghori â'r Cadeirydd ac, os oes rhaid, codi'r mater unwaith eto gyda'r Cyngor pan fydd yn cwrdd y tro nesaf. Os nad oes cyfarfod cyffredin wedi'i drefnu, dylid cyfeirio at y weithdrefn ar gyfer galw cyfarfod arbennig. Fel arall, gall yr aelod o'r Cyngor benderfynu cynnig ymddiswyddo o'i swydd.

**Presenoldeb mewn Cyfarfodydd**

14. Disgwylir lefel uchel o bresenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Cyngor a'i bwyllgorau er mwyn i aelodau gyflawni eu swyddogaethau'n briodol. Dylai aelod o'r Cyngor na all ddod i gyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol yn gyson gynnig ymddiswyddo o'i swydd. Bydd y Clerc yn cynnal archwiliad blynyddol o bresenoldeb ac adroddir ar y canlyniadau wrth y Cadeirydd er mwyn hysbysu arfarniadau unigol. Cyhoeddir data presenoldeb yn Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Brifysgol.

15. Fel y'i nodir uchod, dan Ordinhad 7 PC ac Ordinhad II PCYDDS, gall y Cyngor ddiswyddo aelod sydd wedi bod yn absennol yn gyson o gyfarfodydd y Cyngor heb ganiatâd.

**Cyfrinachedd**

16. Mae'n bwysig bod y Cyngor a'i bwyllgorau yn cynnal trafodaethau llawn a didwyll er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae trafodaethau o'r fath yn bosibl dim ond lle ceir ymddiriedaeth rhwng aelodau a chyd-ddealltwriaeth o gyfrifoldeb corfforaethol. Felly disgwylir i aelodau'r Cyngor gadw trafodaethau a safbwyntiau a fynegir gan aelodau unigol yn gyfrinachol. Mae'r ddyletswydd o gyfrinachedd yn parhau hyd yn oed ar ôl i unigolyn roi'r gorau i fod yn aelod.

17. Bydd papurau a chofnodion y Cyngor yn cael eu categoreiddio'n rhai anghyfyngedig (ar gael i aelodau o'r Brifysgol a'r cyhoedd ar ôl y cyfarfod); rhai cyfyngedig (yn gyfrinachol i aelodau'r Cyngor); a rhai neilltuedig (yn gyfrinachol i aelodau annibynnol o'r Cyngor, neu i aelodau un Cyngor yn unig fel arfer am eu bod yn ymwneud ag aelod unigol o'r staff neu fyfyriwr unigol). Disgwylir i aelodau'r Cyngor gadw at gategori eitemau a thrin y deunydd yn unol â hynny. Fel yr uchod, mae'r ddyletswydd o gyfrinachedd yn parhau hyd yn oed ar ôl i unigolyn roi'r gorau i fod yn aelod.

18. Ni ddylai aelodau'r Cyngor wneud datganiadau i'r wasg na'r cyfryngau neu mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus yn gysylltiedig â'r Brifysgol heb gael cymeradwyaeth y Cadeirydd yn gyntaf neu, yn ei absenoldeb, yr Is-Ganghellor.

**Gwrthdaro Buddiannau a Theyrngarwch**

19. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ymddiriedolwyr elusennau weithredu er budd pennaf eu helusen yn unig. Mae'r Comisiwn Elusennau'n diffinio *gwrthdaro buddiannau* fel unrhyw sefyllfa lle gallai buddiannau neu deyrngarwch personol ymddiriedolwr atal, neu ymddangos fel petaent yn atal, yr ymddiriedolwr rhag gwneud penderfyniadau sydd er budd pennaf yr elusen yn unig. Fel arfer bydd gwrthdaro buddiannau'n codi lle ceir budd ariannol neu fesuradwy posibl i ymddiriedolwr, neu'n anuniongyrchol drwy berson cysylltiedig; neu gallai dyletswydd ymddiriedolwr i'r elusen gystadlu â dyletswydd neu deyrngarwch sydd ganddo i sefydliad neu berson arall.
20. Mae'r Comisiwn Elusennau'n diffinio *gwrthdaro teyrngarwch* fel gwrthdaro buddiannau sy'n codi oherwydd, er na fydd yr ymddiriedolwr dan sylw mewn sefyllfa i ennill unrhyw fudd, gallai buddiannau eraill yr ymddiriedolwr ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir ganddo / ganddi yn yr elusen. Mae'r Brifysgol hefyd yn defnyddio'r term 'buddiant deublyg' i ddisgrifio'r sefyllfa hon. Yn unol â chyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau, CC29 adran 4.5, gall yr ymddiriedolwyr benderfynu, pan na fydd gwrthdaro buddiannau o'r fath yn creu unrhyw risg i'r broses o wneud penderfyniadau er budd pennaf yr elusen, neu pan fydd yn

creu risg isel, y caiff yr ymddiriedolwr dan sylw, wedi iddo / iddi ddatgan y buddiant, gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau.

21. Rhaid i aelodau'r Cyngor geisio osgoi eu rhoi eu hun yn y sefyllfa lle ceir gwrthdaro (gwirioneddol neu bosibl) rhwng eu buddiannau neu eu teyrngarwch personol neu broffesiynol a'u dyletswyddau i'r Cyngor neu ei bwyllgorau. Ni ddylent ganiatáu i unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch godi a allai amharu ar arfer eu crebwyll annibynnol.

22. I'r perwyl hwn, disgwylir i aelodau'r Cyngor wneud y canlynol:

- gwneud datganiad blynyddol o fuddiannau i'r Brifysgol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, gan ddarparu'r manylion y gofynnir amdanynt a defnyddio'r fformat a bennir gan y Clerc;

- ceisio cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Cadeirydd cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch allanol neu ddatblygiad busnes newydd a allai gael effaith, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar waith y Brifysgol;

- rhoi gwybod i'r Clerc am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau yn ystod y flwyddyn sy'n cael effaith ar eu datganiad o fuddiannau;

- ar ddechrau pob cyfarfod, dynodi a rhoi gwybod i aelodau'n rhagweithiol am unrhyw eitem benodol y gallai'r buddiannau a ddatganwyd ganddo/ganddi gael effaith arni, ac os bydd y Cadeirydd yn gofyn am hynny, dylai beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth berthnasol nac yn y broses o wneud penderfyniadau, neu adael y cyfarfod ar yr adeg briodol;

- ar ddiwedd pob cyfarfod, datgan unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch annisgwyl sydd wedi codi yn ystod y drafodaeth;

23. Ymhob achos pan ddynodwyd gwrthdaro mewn cyfarfod, bydd cofnodion y drafodaeth yn cofnodi'r broses a ddilynwyd a lefel y cyfranogi sydd wedi'i chaniatáu.

24. Bydd y Clerc yn llunio cofrestr o fuddiannau'n flynyddol ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Brifysgol.

25. Nid ymdrinnir ag aelodau'r Cyngor fel pe bai ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater oherwydd eu bod hwythau (neu berthynas agos, h.y. rhiant, brawd neu chwaer neu blentyn) yn aelod o staff neu'n fyfyriwr yn y Brifysgol. Nodir yr eithriad i hyn yn Statud XI pan roddir budd ariannol i aelod o'r Cyngor.

26. Defnyddir y datganiad blynyddol o fuddiannau hefyd yn fecanwaith i gadarnhau cymhwystra parhaus aelodau'r Cyngor i weithredu'n ymddiriedolwyr elusen. Rhaid i aelodau'r Cyngor roi gwybod i'r Clerc ar unwaith am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau sy'n cael effaith ar eu cymhwystra i fod yn ymddiriedolwr.

**Grŵp PCYDDS a Chyfarwyddwyr Cwmnïau a benodir gan y Brifysgol**

27. Mae PCYDDS yn rhan o Grŵp PCYDDS, strwythur sector deuol sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr (CSG), Coleg Ceredigion a nifer o is-gwmnïau. Mae rhai o'r cwmnïau hefyd yn elusennau. PCYDDS yw unig aelod CSG, ac mae Coleg Ceredigion yn is-gwmni i CSG. Nid yw PC yn rhan o Grŵp PCYDDS ac mae ganddi nifer o'i his-gwmnïau ei hun.

28. O dro i dro gall y Brifysgol benodi aelod o'r Cyngor i fod yn gyfarwyddwr ar un o'i his-gwmnïau, er mwyn cynrychioli buddiannau'r Brifysgol fel aelod neu gyfranddaliwr o'r cwmni hwnnw. Os yw'r cwmni hefyd yn elusen, bydd y cyfarwyddwr yn ymddiriedolwr i'r elusen. Mewn achosion o'r fath, gellid ystyried bod gan yr aelod fuddiant deublyg.

29. Yn ychwanegol at gyfraith elusennau, mae *Deddf Cwmnïau 2006* yn nodi'r gyfraith yng nghyswllt gwrthdaro buddiannau sy'n effeithio ar gyfarwyddwyr. Mae'r gweithdrefnau cyffredinol a nodir uchod yn galluogi cyfarwyddwyr a benodir gan y Brifysgol i gydymffurfio â'u dyletswyddau tuag at y Brifysgol. Fodd bynnag, mae gan gyfarwyddwr a benodir gan y Brifysgol ddyletswydd statudol hefyd dan gyfraith cwmnïau i osgoi sefyllfa lle mae ganddo/ganddi, neu gallai fod ganddo/ganddi, fuddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n gwrthdaro, neu a allai wrthdaro, â buddiannau'r cwmni.

30. Mae gan lawer o gwmnïau eu codau ymarfer neu ymddygiad eu hun, sy'n cynnwys polisïau i alluogi eu cyfarwyddwyr i gydymffurfio â'u dyletswydd statudol i osgoi gwrthdaro. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i unrhyw gyfarwyddwr a benodir gan y Brifysgol naill ai gydymffurfio â pholisi'r cwmni y mae'n gyfarwyddwr arno; neu, pan nad oes polisi o'r fath yn bodoli neu ei fod yn annigonol, i roi gwybod i'r Brifysgol fel y bo'n briodol.

31. Yn achlysurol gallai'r dyletswyddau sy'n ddyledus i'r Brifysgol gan gyfarwyddwr a benodir gan y Brifysgol wrthdaro â'r dyletswyddau sy'n ddyledus ganddo neu ganddi i'r cwmni. Os ydy cyfarwyddwr a benodir gan y Brifysgol yn ansicr a ydy sefyllfa benodol yn gyfystyr â gwrthdaro buddiannau, dylai drafod y mater gyda'r Clerc a, phan fo'n berthnasol, gydag ysgrifennydd y cwmni. Mewn achosion eithriadol, a chyda chymeradwyaeth Cadeirydd y Cyngor, mae'n bosibl y gofynnir am gyngor yr Ymwelydd ac efallai y bydd yn ofynnol i gyfarwyddwr a benodir gan y Brifysgol gamu i lawr fel cyfarwyddwr pan nad oes modd rheoli'r dyletswyddau sy'n gwrthdaro, er budd y Brifysgol a'r cwmni ill dau.

**Buddiant Deublyg rhwng Cynghorau Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**

32. Mae PC a PCYDDS wedi llofnodi Gweithred gyfreithiol sy'n eu hymrwymo i sefydlu trefniadau llywodraethu a gweinyddu ar y cyd er mwyn i'r ddwy weithredu mewn ffordd gyfunol, yn amodol ar delerau Siartrau a chyfreithiau priodol y naill a'r llall. Yn unol â'r Weithred, mae Cynghorau'r ddwy brifysgol wedi sefydlu trefniadau llywodraethu integredig, a thrwy'r rhain maent hwythau (a'u pwyllgorau) yn cynnwys craidd cyffredin o lywodraethwyr. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r gofyniad dan gyfraith elusennau i allu cynnal cyfarfodydd dilys â chworwm gyda chworymau nad ydynt yn gwrthdaro.

33. Yn ymarferol felly, mae angen cworwm nad yw'n gwrthdaro o Gyngor PC yng nghyswllt penderfyniad ar unrhyw fater sy'n berthnasol i PCYDDS ac mae angen cworwm nad yw'n gwrthdaro o Gyngor PCYDDS yng nghyswllt penderfyniad ar unrhyw fater sy'n berthnasol i PC. Yn achos safonau a pholisïau cyffredin, mae cymeradwyaeth y ddau Gyngor yn ofynnol.

34. Er mwyn gweithredu'r gofynion hyn, disgwylir y canlynol:

    (a) y bydd y Clerc yn ystyriol ynghylch, ac yn gwneud y Cadeirydd yn ymwybodol o, unrhyw eitem busnes arfaethedig lle gallai fod yn ofynnol cael cworwm nad yw'n gwrthdaro;

    (b) pan fydd eitem busnes wedi'i dynodi felly, y dilynir y broses a nodir yng nghyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau CC29 adran 4.5, sy'n golygu:

    - y bydd aelodau'r Cyngor sy'n aelodau o Gynghorau PC a PCYDDS yn datgan buddiannau deublyg;

- mai'r Cyngor perthnasol wedyn a fydd yn penderfynu'r canlynol: a ydy natur y buddiant deublyg yn golygu bod rhaid i'r aelod(au) perthnasol beidio â phleidleisio ac na chânt eu cyfrif yn y cworwm; neu a ydy'r buddiant deublyg yn wrthdaro teyrngarwch, yn risg isel yng nghyd-destun yr amgylchiadau a'r penderfyniad sydd i'w wneud, ac felly y caiff yr aelod(au) perthnasol bleidleisio a chael eu cyfrif yn y cworwm;

- bydd cofnodion y drafodaeth yn cofnodi'r broses a ddilynwyd a lefel y cyfranogi sydd wedi'i chaniatáu.

**Cynefino a datblygu**

35. Yn sgil cael eu penodi rhaid i aelodau'r Cyngor gymryd rhan yn y broses gynefino a drefnir ar eu cyfer gan y Brifysgol. Ar ôl hynny disgwylir iddynt gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau datblygu a drefnir gan y Brifysgol i'w cefnogi yn eu rôl. Gallai digwyddiadau o'r fath gael eu darparu'n fewnol neu'n allanol.

36. Bydd y Cadeirydd yn ymgymryd ag arfarnu aelodau'r Cyngor yn flynyddol drwy gyfarfodydd â llywodraethwyr unigol, ac adroddir ar ganlyniadau generig y rhain wrth y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

**Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau'r Brifysgol**

37. Mae'n ddyletswydd ar aelodau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o reoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ac yn cydymffurfio â nhw, megis y Rheoliadau Ariannol, a deunydd ar ddiogelu data, eiddo deallusol, llwgrwobrwyo, a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Rhaid iddynt hefyd gydnabod eu cyfrifoldeb dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a chydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Brifysgol.

**Adnoddau'r Brifysgol**

38. Rhaid defnyddio adnoddau'r Brifysgol at ddibenion y Brifysgol ac nid er defnydd nac elw personol neu ddibenion eraill. Mae adnoddau'n cynnwys trefniadau ariannol, offer TG, e-bost, y rhyngrwyd, ffôn ac eiddo arall y Brifysgol.

39. Wrth hawlio treuliau, rhaid i aelodau'r Cyngor gydymffurfio â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol gan gymryd cyfrifoldeb personol am unrhyw ofynion gan CThEM neu ofynion statudol eraill sy'n effeithio arnynt.

**Rhoddion a Lletygarwch**

40. Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol, rhaid i aelodau'r Cyngor beidio â derbyn rhoddion, lletygarwch na buddion o unrhyw fath gan drydydd parti y gellid ystyried eu bod yn peryglu eu crebwyll neu uniondeb personol neu a allai roi'r unigolyn dan rwymedigaeth anaddas neu amhriodol. Dylid adrodd wrth y Clerc ar unwaith am unrhyw achos o gynnig neu dderbyn rhoddion, lletygarwch neu fuddion o'r fath.

**Cymhwystra i Gyflawni Swyddogaethau Aelod**

41. Fel y'i nodir uchod, dan Ordinhad 7 PC ac Ordinhad II PCYDDS, gall y Cyngor ddiswyddo aelod sydd yn analluog neu'n anaddas i gyflawni swyddogaethau aelod.
42. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, gellir ystyried yr enghreifftiau canlynol yn ymddygiad sy'n annerbyniol, sy'n torri'r Cod Ymarfer hwn ac a allai olygu bod unigolyn yn anaddas i gyflawni swyddogaethau aelod o'r Cyngor:

- Torri cyfrinachedd neu ymddiriedaeth Torri'r Rheoliadau Ariannol
- Methu â datgelu buddiannau perthnasol

- Methu â datgelu gwybodaeth sy'n effeithio ar gymhwystra i fod yn ymddiriedolwr elusen
- Twyll neu ffugio cofnodion yn fwriadol Gwrthod cydymffurfio â cheisiadau rhesymol gan y Cadeirydd yn gyson
- Presenoldeb gwael neu baratoi'n wael ar gyfer cyfarfodydd yn gyson
- Ymyrryd yn nhrafodaethau cyfarfodydd mewn modd amhriodol yn gyson Iaith neu ymddygiad treisgar, tramgwyddus neu wahaniaethol
- Aflonyddu neu fwlio Camddefnyddio adnoddau'r Brifysgol
- Methu â chydymffurfio â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol
- Anallu difrifol yn ystod dyletswyddau'r Brifysgol oherwydd dylanwad alcohol neu sylweddau anghyfreithlon
- Dwyn anfri ar enw da'r Brifysgol Euogfarn am drosedd sy'n cael effaith ar gymhwystra i fod yn ei swydd

**Aelodau Cyfetholedig**

43. Mae aelod cyfetholedig yn unigolyn allanol i'r Brifysgol a benodir i'r Cyngor neu i bwyllgor sefydlog o'r Cyngor ond nad yw'n aelod annibynnol nac yn ymddiriedolwr elusen. Mae ganddo/ganddi hawliau siarad a phleidleisio llawn, oni nodir fel arall yn y cylch gorchwyl perthnasol.

44. Mae adrannau canlynol y Cod hwn yn berthnasol i aelodau cyfetholedig:
    - Egwyddorion a Gwerthoedd
    - Cydgyfrifoldeb
    - Cyfrinachedd
    - Gwrthdaro Buddiannau a Theyrngarwch
    - Adnoddau'r Brifysgol
    - Rhoddion a Lletygarwch
    - Cymhwystra i Gyflawni Swyddogaethau Aelod.

**Sarah Clark**
**Clerc y Cyngor**

**Dyddiad cymeradwyaeth y Cyngor: 30 Ionawr 2020**
**Dyddiad dod i rym: 1 Chwefror 2020**
**I'w adolygu: Medi 2025**
**Fersiwn: 1.4 (cymeradwywyd**
**gan y Cyngor 10 Gorffennaf**
**2025)**